



colegsirgâr



colegceredigion

ADDYSG UWCH: POLISI FFI OEDD DYSGU A CHOFRESTRU **LLAWN AMSER 2019/20**

Os ydych yn cofrestru fel myfyriwr, dylech ddarllen a deall y telerau cofrestru a amlinellir isod cyn llofnodi'r ffurflen gofrestru. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn deall eich atebolrwydd a'n polisi ynglŷn â thaliadau ac ad-daliadau.

MYFYRWYR NEWYDD 2019/20

Bydd y pecyn ffioedd/cymorth myfyrrwr canlynol yn berthnasol i fyfyrwr llawn amser newydd sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru:

- Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at £9000 heb fod yn seiliedig ar brawf modd (**Darperir rhestr lawn o'r ffioedd yn Atodiad 1**)
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar sail prawf modd hyd at £8,100 yn dibynnu ar incwm y cartref
- Benthyciad Cynhaliaeth (ar sail prawf modd a heb fod ar sail prawf modd)
- Taliad Bwrsariaeth y Coleg – gweler Atodiad 2
- Cronfa Galedi - gweler Atodiad 3

MYFYRWYR SY'N PARHAU 2019/20

Bydd y pecyn ffioedd/cymorth myfyrrwr canlynol yn berthnasol i fyfyrwr llawn amser sy'n parhau sydd â dyddiad dechrau cwrs rhwng 1.9.2012 a 1.8.2018 sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru:

- Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at £4,335 heb fod yn seiliedig ar brawf modd
- Grant Ffioedd Dysgu hyd at £4,665 heb fod yn seiliedig ar brawf modd (**Darperir rhestr lawn o'r ffioedd yn Atodiad 1**)
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar sail prawf modd hyd at £5,161 yn dibynnu ar incwm y cartref
- Benthyciad Cynhaliaeth (ar sail prawf modd a heb fod ar sail prawf modd)
- Taliad Bwrsariaeth y Coleg – gweler Atodiad 2

Caiff yr holl geisiadau eu trin yn ganolog gan Gyllid Myfyrrwr Cymru o Gyffordd Llandudno. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth ynghylch sut i wneud cais a pha gymorth sydd ar gael yn: cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Dylai myfyrrwr llawn amser sydd fel arfer yn byw yn Lloegr wneud cais am gymorth trwy Student Finance England gan fod cymorth ffioedd dysgu gwahanol ar gael, Rhif ffôn: 0845 300 5090

Os ydych chi fel arfer yn byw yn un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd (**ac eithrio** Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon), a'ch bod yn astudio yng Nghymru, rydych yn gymwys ar gyfer yr un benthyciad ffioedd a'r pecyn grant ffioedd â myfyrrwr llawn amser sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru. Bydd Ceisiadau ac Aseidiadau am gymorth gyda ffioedd dysgu yn cael eu trin gan dîm Gwasanaethau Cyllid Myfyrrwr nad ydynt yn fyfyrwr o'r DU a leolir yn Darlington. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â nhw'n uniongyrchol ar **(+44) (0) 141 243 3570**

PWYSIG – CYN COFRESTRU

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych gyllid digonol yn ei le cyn eich bod yn dechrau ar eich astudiaethau ac yn mynd i gostau ffioedd.

Er mwyn sicrhau bod unrhyw gyllid yr ydych yn ei hawlio yn cael ei dalu i chi'n brydlon mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru/Student Finance England eich bod yn mynychu'r Coleg cywir.

TALU FFI OEDD

Gofynnir i fyfyrwyr llawn amser ddarparu prawf o'u cyllid adeg cofrestru. Os ydych yn parhau i fod yn y broses o hawlio cymorth gofynnir i chi ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o fewn y 28 diwrnod sy'n dilyn. Os ydych yn dal i fod heb ddarparu'r wybodaeth hon cewch eich anfonebu'n llawn am eich ffioedd er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'ch atebolrwydd i'r Coleg am eich ffioedd. Os ydych yn bwriadu talu eich ffioedd eich hun, gofynnir i chi dalu traean eich ffioedd adeg cofrestru, a chwblhau Gorchymyn Debyd Uniongyrchol ar gyfer y gweddill.

TYNNU NÔL AC AD-DALIADAU

Os ydych yn meddwl am roi'r gorau i'ch cwrs mae'n bwysig eich bod yn ceisio cyngor ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r holl oblygiadau wrth wneud eich penderfyniad. **Rhaid i chi** hysbysu'ch tiwtor a'r **Gofrestrfa** yn ffurfiol ar unwaith os ydych yn penderfynu tynnu nôl o'ch astudiaethau neu eu gohirio, gan gadarnhau dyddiad olaf eich presenoldeb. Dylech hefyd gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru oherwydd gallai'r ffaith eich bod wedi tynnu nôl beryglu eich hawl i gael cymorth ariannol yn y dyfodol.

Rhoddir cyfnod gras o bythefnos o ddechrau eich cwrs pan na chodir ffioedd. Yn dilyn y cyfnod gras o bythefnos bydd y telerau canlynol yn gymwys ar gyfer taliadau;

Codir ffioedd yn unol â thelerau ac amodau Benthyciadau Myfyrwyr, sef;

Tymor 1 – 1 ^{af} Hydref 2019	25% o'r ffi flynyddol
Tymor 2 – 7 ^{fed} Ionawr 2020	50% o'r ffi flynyddol
Tymor 3 – 20 ^{fed} Ebrill 2020	100% o'r ffi flynyddol

PEIDIO Â THALU FFI OEDD

Ni chaniateir i unrhyw fyfyrwr sy'n cwblhau blwyddyn academiaidd heb dalu ffioedd i ailgofrestru ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf, hyd nes telir yr holl ffioedd sy'n weddill yn llawn. Gall methu â thalu am unrhyw gostau nwyddau neu wasanaethau a godir ar ddysgwyr gan y Coleg arwain at gymryd camau Llys Sirol i adennill y swm/symiau sy'n weddill. Gellid hefyd defnyddio Asiantaethau Adfer Dyledion annibynnol i geisio casglu unrhyw ffioedd sy'n weddill, gyda chost gwneud hynny yn cael ei hychwanegu i'ch dyled. Os bydd angen gweithredu yn y modd hwn, gellir defnyddio Gwybodaeth Bersonol a ddarparwyd gennych er mwyn cwblhau gwiriadau gwrth-dwyll priodol. **Mae'n bosibl y caiff Gwybodaeth Bersonol a ddarperir gennych ei datgelu i asiantaeth cyfeiriadau credyd neu atal twyll, ac mae'n bosibl y cedwir cofnod o'r wybodaeth honno.**

Rhifau Defnyddiol

cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Ffôn: 0300 200 4050

Swyddog Cefnogi Dysgwyr, y Graig

Ffôn: 01554 748036

Swyddog Cefnogi Dysgwyr, Rhydaman a'r Gelli Aur

Ffôn: 01554 748305

Swyddog Cefnogi Dysgwyr, Pibwrlwyd a Ffynnon Job

Ffôn: 01554 748070

E-bost: financialsupport@colegsigar.ac.uk

Atodiad 1



FFIOEDD AU		
TALIADAU FFIOEDD DYSGU A CHOFRESTRU ADDYSG UWCH		
<i>Myfyrwyr Cartref a'r UE yn unig</i>		
Israddedig Llawn Amser		
Cwrs	Ffi	
HND, Gradd Sylfaen, BSc neu BA (Pob blwyddyn)	£ 9,000	
BSc a BA Blwyddyn Rhyngosod	£ 1,800	

BWRSARIAETHAU ADDYSG UWCH AR GYFER MYFYRWYR LLAWN AMSER: 2019/20

Bwrsariaethau'r Coleg ar gyfer Myfyrwyr Newydd llawn amser – h.y. myfyrwyr blwyddyn gyntaf (Heb fod yn seiliedig ar brawf modd)

Mae arian y bwrsariaethau hyn yn **gyfyngedig** - felly po gynharaf y gwnewch gais, gorau i gyd fydd eich siawns o gael un. Gallwch wneud cais yn awr gan ddefnyddio'r ffurflen ar gefn y daflen hon a byddwn yn anfon cadarnhad o'ch cymhwysedd atoch. **Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl 1 Tachwedd 2019.** Mae pob bwrsariaeth yn amodol ar eich bod yn bodloni gofynion mynediad, rheolau a rheoliadau'r Coleg.

Mae'r bwrsariaethau hyn ar gael i **Fyfyrwyr Newydd** llawn amser – h.y. myfyrwyr blwyddyn gyntaf sy'n byw yn y Gymuned Ewropeaidd ac sy'n cofrestru ar Gwrs Addysg Uwch llawn amser yn y Coleg (h.y. Gradd, Gradd Sylfaen neu HND) ac sy'n dal i fynychu ar 1 Chwefror 2020. **D.S: Bydd myfyrwyr fel arfer yn gymwys ar gyfer hyd at un fwsariaeth coleg yn unig.**

Bwrsariaeth Dilyniant Mewnol - £1000

Mae hon yn daladwy mewn dau randaliad ym mis Mawrth 2020 a mis Mehefin 2020 i fyfyrwyr sydd wedi symud ymlaen yn fewnol o gwrs lefel 3 yng Ngholeg Sir Gâr / Coleg Ceredigion. Mae rhaid bod myfyrwyr wedi ymgeisio trwy UCAS a bydd angen iddynt ddyfynnu eu rhif UCAS.

Bwrsariaeth Dilyniant Ysgolion Partner - £300

Mae hon yn daladwy ym mis Mawrth 2020 i fyfyrwyr a symudodd ymlaen yn 2019 o ysgol sy'n gydnabyddedig fel partner, h.y. Ysgol y mae'r Coleg yn cydweithio â hi fel rhan o'r Rhwydwaith 14-19 neu o raglenni ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

Bwrsariaeth i Bobl sy'n Gadael Gofal - £500

Mae hon yn daladwy ym mis Mawrth 2020 i fyfyrwyr sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol yn flaenorol.

Bwrsariaeth Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg - £500

Mae hon yn daladwy ym mis Mehefin 2020 i fyfyrwyr sy'n cwblhau o leiaf un modiwl o'u blwyddyn gyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bwrsariaeth Gofal Plant - £500

Mae hon yn daladwy ym mis Mawrth 2020 i fyfyrwyr sy'n rhieni â dibynyddion (o dan 16 ac mewn addysg llawn amser) sy'n byw yn yr un cyfeiriad â nhw.

Bwrsariaeth Cwblhad Llwyddiannus - £300

Mae hon yn daladwy ym mis Mehefin 2020 i fyfyrwyr sy'n cwblhau eu **hasesiadau blwyddyn gyntaf** (heb unrhyw gyfeirio) ac sy'n symud ymlaen i ail flwyddyn eu Cwrs Addysg Uwch llawn amser yn y Coleg (h.y. Gradd, Gradd Sylfaen neu HND).

Bwrsariaeth Cludiant Tocyn Teithio - £300

Bydd hon yn talu am bas bws gwerth £300 i'r myfyrwyr hynny sydd ag anawsterau penodol yn ymwneud â chludiant. Bydd cludiant ar gael ar brif lwybrau teithio'r Coleg yn unig ac ni ddarperir cerbydau i gludo myfyrwyr i brif lwybrau teithio'r Coleg.

Bwrsariaethau'r Coleg ar gyfer myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn – h.y. myfyrwyr sy'n parhau (Heb fod ar sail prawf modd)

Mae nifer gyfyngedig o fwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn, sy'n byw yn y Gymuned Ewropeaidd ac sydd wedi cofrestru ar Gwrs Addysg Uwch llawn amser yn y Coleg (h.y. Gradd, Gradd Sylfaen neu HND) ac sy'n dal i fynychu ar 1 Chwefror 2020. **D.S: Bydd myfyrwyr fel arfer yn gymwys ar gyfer hyd at un fwrsariaeth coleg yn unig.**

Mae arian y bwrsariaethau hyn yn **gyfyngedig** - felly po gynharaf y gwnewch gais, gorau i gyd fydd eich siawns o gael un. Gallwch wneud cais yn awr gan ddefnyddio'r ffurflen ar gefn y daflen hon a byddwn yn anfon cadarnhad o'ch cymhwysedd atoch. **Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl 1 Tachwedd 2019.** Mae pob bwrsariaeth yn amodol ar eich bod yn bodloni gofynion mynediad, rheolau a rheoliadau'r Coleg.

Bwrsariaeth Cwblhad Llwyddiannus ar gyfer yr ail flwyddyn - £300

Mae hon yn daladwy ym mis Mehefin 2020 i fyfyrwyr sy'n cwblhau eu **hasesiadau ail flwyddyn** (heb unrhyw gyfeirio). **Mae hon ar gael i fyfyrwyr ail flwyddyn YN UNIG.**

Bwrsariaeth i Bobl sy'n Gadael Gofal - £500

Mae hon yn daladwy ym mis Mawrth 2020 i fyfyrwr sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol yn flaenorol.

Bwrsariaeth Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg - £500

Mae hon yn daladwy ym mis Mehefin 2020 i fyfyrwyr sy'n cwblhau o leiaf un modiwl o'u **hail neu drydedd flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Bwrsariaeth Gofal Plant - £500

Mae hon yn daladwy ym mis Mawrth 2020 i fyfyrwyr sy'n rhieni â dibynyddion (o dan 16 ac mewn addysg llawn amser) sy'n byw yn yr un cyfeiriad â nhw.

Bwrsariaeth Cludiant Tocyn Teithio - £300

Bydd hon yn talu am bas bws Coleg gwerth £300 i'r myfyrwyr hynny sydd ag anawsterau penodol yn ymwneud â chludiant. Bydd cludiant ar gael ar brif lwybrau teithio'r Coleg yn unig ac ni ddarperir cerbydau i gludo myfyrwyr i brif lwybrau teithio'r Coleg.

Bwrsariaeth Blwyddyn Rhyngosod - £300

Mae hon yn daladwy ym mis Mawrth 2020 i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â blwyddyn rhyngosod gydnabyddedig fel rhan o'u rhaglen.

SUT I WNEUD CAIS

Mae arian y bwrsariaethau hyn yn **gyfyngedig** - felly po gynharaf y gwnewch gais, gorau i gyd fydd eich siawns o gael un. **Ni dderbynnir ceisiadau ar ôl 1 Tachwedd 2019.** Mae pob bwrsariaeth yn amodol ar eich bod yn bodloni gofynion mynediad, rheolau a rheoliadau'r Coleg.

Ymholiadau at: Heledd Edwards 01554 748383 neu heledd.edwards@colegsirgar.ac.uk

Atodiad 3

CRONFA GALEDI ADDYSG UWCH: MYFYRWYR LLAWN A RHAN-AMSER: 2019/20

Mae hon yn ffynhonnell ychwanegol o gymorth ariannol ar gyfer unrhyw fyfyrwr sydd wedi cael Benthyciad Myfyriwr (os yw'n gymwys) ac sy'n profi caledi ariannol. Rhaid i ymgeisydd hefyd ddangos ei fod ef/hi wedi edrych ar bob ffynhonnell ariannu arall, gan gynnwys ei ddarpariaeth gorddrafft, cyn y gellir ystyried cais.

Mae cymorth ariannol ar gael i unrhyw fyfyrwr yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio o leiaf cyfwerth â 50% o gwrs llawn amser. Gall myfyriwr wneud cais am gyllid ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs a gall ail-ymgeisio os yw mewn trafferthion ariannol. Fel rheol, nid oes angen ad-dalu arian.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

<p>Y GRAIG Debbie Williams 01554 748036 Coleg Sir Gâr, Campws y Graig, Heol Sandy, Llanelli SA15 4DN ✉debbie.williams@colegsirgar.ac.uk</p>	<p>RHYDAMAN Jamie Davies 01554 748305 Coleg Sir Gâr, Rhydaman, SA18 3TA ✉jamie.davies@colegsirgar.ac.uk</p>	<p>PIBWRLWYD/FFYNNON JOB/Y GELLI AUR Filipe Nunes 01554 748070 Coleg Sir Gâr, Campws Pibwrlwyd, Caerfyrddin SA31 2NH ✉filipe.nunes@colegsirgar.ac.uk</p>
<p>ABERTEIFI Caryl Rockley 01239 622764 Coleg Ceredigion, Aberteifi, Maes y Parc, Aberteifi SA43 1AB ✉caryl.rockley@ceredigion.ac.uk</p>	<p>ABERYSTWYTH Ada Evans/Meuris Lewis 01970 639746 Coleg Ceredigion Campws Aberystwyth Llanbadarn Fawr Aberystwyth SY23 3BP studentliaison.department@ceredigion.ac.uk</p>	